

WELI DI FI?

Cefnogi plant ac oedolion ag awtistiaeth i ymweld â'r sinema

BYDDWCH YN GLIR



Byddwch yn glir ac yn gryno



Peidiwch â defnyddio iaith ffigurol – gall idiomau a throsiadau fod yn ddryslyd



Peidiwch â dibynnu ar ystumiau, cyswllt llygad nac iaith y corff i gyfathrebu neu gyfeirio rhywun

BYDDWCH YN AGORED



Ceisiwch ddechrau ymwneud yn gymdeithasol â'r unigolyn. Os oes angen help ar yr unigolyn, efallai na fyddant yn teimlo'n ddigon hyderus i ofyn



Ceisiwch beidio â defnyddio gormod o glebran cymdeithasol a chadw at sgwrsio pwrpasol



Rhoddwch gefnogaeth gyda rheolau a chonfensiynau cymdeithasol megis aros mewn llinell

BYDDWCH YN DDIBYNADWY



Cynigiwch nifer cyfyngedig o ddewisiadau yn hytrach na dewisiadau rhydd



Esboniwch y broses yn glir i ddewis a thalu am docynnau



Gofynnwch gwestiynau penodol (e.e. "hoffech chi docyn oedolyn?" yn hytrach na "pa fath o docyn hoffech chi?")

BYDDWCH YN YMWBODOL YN SYNHWYRAIDD



Os oes newid i'r ffilm sy'n cael ei dangos neu'r amseroedd cychwyn, esboniwch y canlyniadau a'r dewisiadau eraill



Derbyniwch yr unigolyn yn defnyddio offer synhwyrdd megis sbectolau tywyll neu amddiffynwyr clustiau



Byddwch yn ymwybodol fod arogleuon cryf, goleuadau llachar a synau uchel yn gallu achosi pryder